## Symptomau ambr

Cysylltwch â'ch Practis Meddyg Teulu, neu ffoniwch GIG 111 heddiw, os oes gan eich plentyn unrhyw un o'r symptomau hyn, neu os ydych chi'n teimlo y gallai eich plentyn fod yn ddifrifol wael, neu os oes rhywbeth yn peri pryder i chi ac nad yw ar y rhestrau hyn -

**Dim ond gofyn: "A allai fod yn sepsis?"**

### Tymheredd
- ❒ Tymheredd uwch (mwy na 37.5°C) am bum diwrnod neu fwy
- ❒ Crynu neu ysgwyd

### Anadlu
- ❒ Mae ffroenau'n newid maint gyda phob anadl
- ❒ Anadlu sy'n swnllyd neu'n swnio'n 'graclyd'
- ❒ Peswch sy'n swnio fel morlo yn cyfarth

### Croen, Gwefusau a Thafod
- ❒ Croen anarferol o welw. Ar groen lliw tywyllach, gall fod yn haws gweld newidiadau y tu mewn i fraich neu gledr y llaw
- ❒ Ceg, gwefusau ac/neu dafod sych

### Bwyta ac Yfed
- ❒ Baban nad yw'n bwydo (cymryd llai na hanner eu swm arferol o laeth)
- ❒ Bwyta llawer llai nag arfer
- ❒ Wedi chwydu (wedi bod yn sâl) fwy na dwywaith yn ystod y 24 awr ddiwethaf

### Toiled / Cewynnau
- ❒ Mwy na phump pŵ dyfrllyd (dolur rhydd) yn ystod y 24 awr ddiwethaf mewn babanod iau na blwydd oed
- ❒ Dim ond un cewyn gydag wrin neu gewyn gwlyb mewn wyth awr

### Gweithgaredd a Chorff
- ❒ Llai o ddiddordeb nag arfer mewn chwarae
- ❒ Anodd deffro neu anarferol o gysglyd
- ❒ Breichiau neu goesau neu gymal wedi chwyddo
- ❒ Ddim yn defnyddio/rhoi pwysau ar fraich, coes, llaw neu droed

Sganiwch y cod QR i gael rhagor o wybodaeth, neu ewch i abuhb.nhs.wales/sepsis neu sepsistrust.org

## Symptomau coch

Mae llawer o blant (ond nid pob un) sydd â'r symptomau hyn yn ddifrifol wael.

**Cymerwch gamau ar unwaith. Ffoniwch 999, neu ewch i'r Uned Asesu Argyfwng Plant yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.**

### Tymheredd
- ❒ Tymheredd dros 38°C mewn babanod dan dri mis oed
- ❒ Tymheredd dros 39°C mewn babanod rhwng tri a chwe mis oed
- ❒ Unrhyw dymheredd uchel mewn plentyn na ellir ei annog i ddangos diddordeb mewn unrhyw beth
- ❒ Tymheredd isel (is na 36° C, gwiriwch dair gwaith mewn cyfnod o 10 munud)

### Anadlu
- ❒ Ei chael yn llawer anoddach anadlu nag arfer - mae'n edrych fel gwaith caled
- ❒ Gwneud synau 'rhugan' gyda phob anadl (mewn babanod newydd-anedig gall hyn swnio fel oen yn brefu)
- ❒ Anadlu cyflym iawn (mwy nag un anadl yr eiliad mewn babanod)
- ❒ Methu dweud mwy nag ychydig eiriau ar unwaith (ar gyfer plant hŷn sydd fel arfer yn siarad)
- ❒ Anadlu sy'n amlwg yn cymryd 'saib'

### Croen, Gwefusau a Thafod
- ❒ Mae'r croen yn las, yn frith (porffor, coch) neu'n welw iawn. Ar groen lliw tywyllach, gall fod yn haws gweld newidiadau y tu mewn i fraich neu gledr y llaw
- ❒ Mae gwefusau neu dafod yn eithaf glas
- ❒ Llygaid yn edrych 'wedi suddo'
- ❒ Mae'r dwylo a'r traed yn anarferol o oer i'w cyffwrdd
- ❒ Brech nad yw'n pylu pan gaiff ei wasgu'n gadarn (defnyddiwch wydr clir)

### Toiled / Cewynnau
- ❒ Heb gael cewyn gydag wrin ynddo neu gewyn gwlyb am 12 awr

### Bwyta ac Yfed
- ❒ Baban newydd o dan fis oed heb unrhyw ddiddordeb mewn bwydo
- ❒ Gwrthod yfed am fwy nag wyth awr (pan yn effro)
- ❒ Sychedig iawn
- ❒ Methu cadw hylifau i lawr
- ❒ Chwydu'n barhaus am fwy na 24 awr
- ❒ Chŵd sy'n wyrdd, yn waedlyd neu'n ddu

### Gweithgaredd a Chorff
- ❒ Mae smotyn meddal ar ben babi wedi chwyddo
- ❒ Ni ellir annog y plentyn i ddangos diddordeb mewn unrhyw beth
- ❒ Babi yn llipa
- ❒ Plentyn iau sy'n wan, yn 'gwynfanus' neu'n crio'n barhaus
- ❒ Plentyn hŷn sy'n ddryslyd
- ❒ Ddim yn ymateb neu'n bigog iawn
- ❒ Anodd eu deffro, gwrthod aros yn effro neu ddim yn ymddangos eu bod yn eich adnabod chi
- ❒ Gwddf anystwyth, yn enwedig wrth geisio ed rych i fyny ac i lawr



*"Cyn mynd yn sâl ym mis Rhagfyr 2022, roedd Dylan yn blentyn 9 oed iach gyda natur gariadus, annwyl a sensitif. Roedd wrth ei fodd yn codio, datrys ar wib, ac archwilio'r byd gyda meddwl chwilfrydig. Yn drasig, digwyddodd llawer o fethiannau pan aeth Dylan yn sâl. Rydyn ni eisiau i Dylan gael ei gofio am y person unigryw yr oedd e. Wedi'i ysgogi gan synnwyr o gyfiawnder, ceisiodd Dylan wneud pethau'n iawn. Fi yw ei lais ef nawr, yn gweithio i wella diogelwch i eraill. Ni ddylai gymryd marwolaeth ataliadwy unrhyw blentyn er mwyn i eraill fyw, ond rydym hefyd am i 'DYLAN' gael ei gofio fel acronym: Gall dirywiad fod yn gyflym, Chi sy'n adnabod eich plentyn orau. Dysgwch yr arwyddion a'r symptomau, Gweithredwch yn gyflym, Peidiwch byth ag amau'ch greddf."* - Mam Dylan, Corinne Cope.

Rhennir y cynnwys yn y canllaw hwngan Ymddiriedolaeth Sepsis y DU.

# Adnabod plentyn sâl

## Beth yw sepsis?

Mae sepsis yn gyflwr meddygol brys lle mae'r system imiwnedd yn gorymateb i haint. Mae'n effeithio ar unrhyw un a, heb driniaeth frys, gall arwain at fethiant yr organau a marwolaeth.

Fodd bynnag, yn aml gellir trin sepsis os caiff ei ddal yn gyflym, felly gofynnwch bob amser: **'a allai fod yn sepsis?'**



SEPSIS SAVVY | THE UK SEPSIS TRUST | GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board